## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (CYLCHFAN FFORDD CAERGYBI, BANGOR, GWYNEDD I GYLCHFAN FFORDD MONA, PORTHAETHWY, YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gallu cynnal digwyddiad Hanner Marathon a Ras 10K Ynys Môn ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, rhwng Bangor, Gwynedd a Phorthaethwy, Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y digwyddiad), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Ffordd Caergybi (Tafarn yr Antelope), Bangor, Gwynedd hyd at ei chyffordd â Chylchfan Ffordd Mona (Garej Shell), Porthaethwy, Ynys Môn.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o Fangor yw mynd ar yr A487 tua'r de-orllewin i Gyffordd 9 yr A55 (Cyfnewidfa Treborth), ar yr A55 tua'r gorllewin i Gyffordd 8A (Carreg Brân) ac ar yr A5 tua'r dwyrain i Borthaethwy: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Borthaethwy.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Mawrth 2022 a bydd yn para am 1 diwrnod. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol o 06:00 – 11:30 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A5 TRUNK ROAD (HOLYHEAD ROAD ROUNDABOUT, BANGOR, GWYNEDD TO MONA ROAD ROUNDABOUT, MENAI BRIDGE, ANGLESEY) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to enable the Anglesey Half Marathon and 10K Race event to be held on or near the A5 trunk road between Bangor, Gwynedd and Menai Bridge, Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the event), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A5 trunk road that extends from its junction with Holyhead Road Roundabout (Antelope Inn), Bangor, Gwynedd to its junction with Mona Road Roundabout (Shell Garage), Menai Bridge, Anglesey.

The alternative route for westbound traffic from Bangor is via the south-westbound A487 to the A55 Junction 9 (Treborth Interchange), westbound A55 to Junction 8A (Carreg Brân) and eastbound A5 to Menai Bridge: vice versa for eastbound traffic from Menai Bridge.

The Order comes into force on 6 March 2022 and has a duration of 1 day. The temporary prohibitions are expected to operate from 06:00 – 11:30 hours on that date.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government